

Yn y rhifyn hwn :

Cynnwys

Nodyn gan Gadeirydd y Llywodraethwyr	2
Ganllawiau Rheoliadu Cyllido Ysgolion, Datganiadu Cyllideb a Datganiadu Alldro Cymru	3
Gweithio gyda'n gilydd i wneud cyllidebau ysgolion fynd ymhellach	4
Dysgu a Sgiliau - Diweddariad Tymor yr Haf	5
Digwyddiad Darparwr AHY	8
Yn cyflwyno'r Rheolwr Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar Gymunedau newydd.	10
Grŵp Cyfeirio Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru	11
Hyfforddiant mewn swydd (HMS)	12
Arolwg Hyfforddiant Llywodraethwyr	13
Cylchlythyr Mynegai – Rhifyn yr Haf	14
Chymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro	15



Nodyn gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Rydym yn byw mewn cyfnod diddorol, gyda Llywodraeth newydd sbon ym Mae Caerdydd a chyfres hollol newydd o wleidyddion wrth y llyw.

Dros yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi cael y fraint o wrando ar ddau o'r Gweinidogion newydd yn amlinellu rhywfaint o'u gweledigaeth ar gyfer sut y byddant yn gwneud Cymru'n lle gwell. Mae eu hangerdd a'u hymrwymiad yn amlwg iawn ac rwy'n teimlo'n galonogol, ond rwy am weld pethau'n digwydd go iawn cyn llunio barn.

Mae penodiad Anna Brychan yn Weinidog Addysg wedi fy nghalonogi. Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio ei gwaith yng Nghonsortium Canolbarth y De a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, cyn iddi symud i'r Adran Addysg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r syniad o ddewis addysgwr fel Gweinidog Addysg yn ymddangos yn gam cadarnhaol iawn.

Mae camau ar y gweill i newid llywodraethu ysgolion yng Nghymru, fel y bydd y rheini ohonoch a ymunodd â'r Diweddariad Addysg Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ym mis Mehefin yn ymwybodol. Dechreuwyd hyn dan y llywodraeth ddiwethaf, ond heb amheuaeth bydd yn cael ei gario ymlaen gan yr un newydd. Roedd y sesiwn yn rhan bwysig o broses swyddogion Llywodraeth Cymru o gasglu gwybodaeth am sut mae'r system bresennol yn gweithio a sut y gellid ei diwygio, fel y gallant gynghori Gweinidogion, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Roedd Llywodraethwyr y Fro yn bendant glir ac adeiladol wrth fynegi eu barn. Rydym yn aros am gynigion cadarn ar gyfer ymgynghori maes o law.

Roedd yr ail gyflwyniad ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgolion hefyd yn ddadlennol. Mae ysgolion yn amlwg yn canolbwyntio ar Ddysgu ac Addysgu a sicrhau bod dysgwyr yn ein hysgolion yn cael y cymwysterau cywir ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol, ond rhaid i ni beidio ag anghofio bod gan ysgolion rôl bwysig wrth arfogi dysgwyr â sgiliau meddwl meddalach, wrth iddynt lywio byd cymhleth a phryderus. Hoffwn eich annog i ddarganfod sut mae eich ysgol yn rhoi'r cysyniadau yn y gofynion CGM ar lefel Gynradd ac Uwchradd ar waith. Rydym i gyd eisiau Cymru sy'n cael ei llywio gan werthoedd moesegol gwybodus cryf.

Rwy'n dymuno seibiant da i chi dros wyliau haf yr ysgol. Rwy'n siŵr y byddwch yn dychwelyd wedi'ch adfywio i wynebu heriau'r flwyddyn academiaidd newydd.

Dr Martin Price

Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Barri

Ganllawiau Rheoliadu Cyllido Ysgolion, Datganiadu Cyllideb a Datganiadu Alldro Cymru

Heddiw rydym wedi lansio ymgynghoriad ar [Ganllawiau Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro \(Cymru\) 2026](#) a fydd yn rhedeg tan **19 Mehefin 2026**.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn casglu barn ar eglurder a defnyddioldeb 2 ddogfen ganllaw mewn perthynas â Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026. Y canllawiau drafft hyn yw:

- canllawiau cyffredinol ar Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026
- canllawiau statudol ar gynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol

Nod y canllawiau yw cefnogi'r broses weithredu a chysondeb.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich adborth ar y 2 ddogfen ganllaw drafft, sydd i'w gweld yn yr ymgynghoriad.

Gweithio gyda'n gilydd i wneud cyllidebau ysgolion fynd ymhellach

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ysgolion ledled y Fro wedi parhau i elwa o gymorth caffael pwrpasol, gan eu helpu i gael gwell gwerth o wariant pob dydd, a rhyddhau cyllid ar gyfer yr hyn sy'n bwysicaf yn yr ystafell ddosbarth.

Ers penodi Swyddog Caffael Ysgolion ym mis Mehefin 2025, mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud. Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, roedd **40 ysgol** wedi ymuno â chontractau gwastraff y Fro a drafodwyd yn ganolog, gan gyflawni **arbedion blynyddol parhaus o fwy na £140,000**. Mae'r rhain yn arbedion sy'n aros mewn cyllidebau ysgolion flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae yna hefyd lawer o waith newydd ar y gweill. Mae **system archebu ddigidol a ariennir gan grant** yn cael ei datblygu i helpu ysgolion i logi eu cyfleusterau yn haws i grwpiau cymunedol lleol. Dylai hyn wneud archebion yn haws i'w rheoli, a helpu ysgolion i greu incwm ychwanegol o'u hadeiladau a'u lleoedd.

Ar yr un pryd, mae **tendr llungopiwr sengl** ar y gweill ar gyfer pob un o'r 53 ysgol. Yn hytrach na thrafod pob ysgol ar wahân, bydd y dull hwn a rennir yn dod â phrisiau cyson, llai o waith papur, a gwell gwerth am arian yn gyffredinol.

Y tu ôl i'r llenni, mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda thimau eraill y Cyngor i wella contractau gwasanaeth mewnol ar gyfer ysgolion, gan anelu at well gwasanaeth, prisiau cystadleuol, ac enillion cryfach i'r Cyngor yn gyffredinol. Mae opsiynau hefyd yn cael eu harchwilio i ddod â chyflenwyr allweddol offer ysgol pob dydd i drefniadau a reolir yn ganolog, gan fanteisio ar ein pŵer prynu ar y cyd.

Mae'r holl waith hwn yn ymwneud ag un nod syml: **helpu cyllidebau ysgolion i ymestyn ymhellach trwy gydweithio**. Ac nid dyna ddiwedd y peth, mae hyd yn oed mwy o arbedion a gwelliannau wedi'u cynllunio trwy gydol 2026/27.



Gweithio gyda'n gilydd i wneud cyllidebau ysgolion fynd ymhellach

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ysgolion ledled y Fro wedi parhau i elwa o gymorth caffael pwrpasol, gan eu helpu i gael gwell gwerth o wariant pob dydd, a rhyddhau cyllid ar gyfer yr hyn sy'n bwysicaf yn yr ystafell ddosbarth.

Ers penodi Swyddog Caffael Ysgolion ym mis Mehefin 2025, mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud. Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, roedd **40 ysgol** wedi ymuno â chontractau gwastraff y Fro a drafodwyd yn ganolog, gan gyflawni **arbedion blynyddol parhaus o fwy na £140,000**. Mae'r rhain yn arbedion sy'n aros mewn cyllidebau ysgolion flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae'r holl waith hwn yn ymwneud ag un nod syml: helpu cyllidebau ysgolion i ymestyn ymhellach trwy gydweithio. Ac nid dyna ddiwedd y peth, mae hyd yn oed mwy o arbedion a gwelliannau wedi'u cynllunio trwy gydol 2026/27.



Dysgu a Sgiliau - Diweddariad Tymor yr Haf

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £70m ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru. Diben y cyllid cyfalaf hwn yw cefnogi a gwella'r seilwaith gofal plant a Dechrau'n Deg presennol. Prif amcanion y rhaglen gyfalaf yw sicrhau bod y sector gofal plant yng Nghymru yn cael ei gryfhau a'i fod yn cefnogi'r rhaglen ar gyfer ymrwymadau Llywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau datblygiad ar safle Ysgol Tregatwg a fydd yn creu darpariaeth gofal plant ychwanegol.

Ailwampio Ysgol Tregatwg

Dechreuodd contractwyr weithio ar y safle ar 27 Mehefin 2025 a chwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus ar 19 Mawrth 2026. Cyflawnwyd y datblygiad yn unol â'r rhaglen ac mae wedi arwain at greu cyfleuster gofal plant pwrpasol o ansawdd uchel.



Bydd y lleoliad gofal plant a gomisiynwyd, **Cadog's Corner-Little Inspirations**, yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00 a.m. a 6:00 p.m., am 51 wythnos o'r flwyddyn. Mae'r lleoliad wedi'i gynllunio i fodloni anghenion teuluoedd lleol trwy gynnig darpariaeth gofal plant hyblyg a hygyrch.

Mae Cadog's Corner-Little Inspirations wedi ymrwymo i ddarparu gofal plant cyson, o ansawdd uchel mewn amgylchedd diogel, meithringar ac ysgogol. Bydd y cyfleuster yn cefnogi dysgu, datblygiad a lles plant, gan helpu i roi'r dechrau gorau posibl iddyn nhw mewn bywyd tra'n cryfhau'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y gymuned leol.

Lluniau Cyn y Prosiect



Ailwampio Ysgol Tregatwg - Wedi'i gwblhau



Ailwampio Ysgol Tregatwg - Wedi'i gwblhau



Digwyddiad Darparwr AHY – 30 Ionawr 2026

Daeth y Digwyddiad Darparwr AHY cyntaf ag ysgolion, partneriaid a darparwyr arbenigol ynghyd i gryfhau'r dull cydweithredol o gefnogi dysgwyr ledled Bro Morgannwg. Cynhaliwyd y digwyddiad gan y Tîm Ymgysylltu â Disgyblion, ac roedd yn arddangos ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i sicrhau cymorth hygyrch o ansawdd da i blant a phobl ifanc sy'n wynebu ystod o rwysrau i gael mynediad at addysg.

Croesawyd y mynychwyr gan frechwast cyn annerchiad agoriadol gan Martin Dacey, Swyddog Arweiniol Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles, gan gyflwyno diwrnod oedd yn canolbwyntio ar bartneriaeth, menter a darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Roedd yr agenda yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau addysgiadol, gan gynnwys mewnwleidiadau Cysylltiadau Dysgu i gefnogi pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, trosolwg o lwybrau ymyrraeth y Gwasanaeth Ieuencid, a'r daith i addysg ôl-16 a gyflwynwyd gan swyddogion ADY. Rhoddodd y sesiynau hyn strategaethau ymarferol i fynychwyr ysgol a phartneriaid a dealltwriaeth ddyfnach o'r fframwaith ymateb graddedig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n profi absenoldeb parhaus, ymddieithrio, anghenion ICEM, neu risg o allgáu.



Gyda chyfraniadau gan ddarparwyr achrededig â sicrwydd ansawdd, creodd y digwyddiad ofod gwerthfawr ar gyfer deialog broffesiynol ac archwilio llwybrau ymyrraeth. Tynnodd y digwyddiad sylw at ehangder y ddarpariaeth amgen ac ategol sydd ar gael i ysgolion, gydag ystod eang o ddarparwyr yn bresennol, gan gynnwys:

CAVDAS	Sefydliad Pêl-droed Dinas Caerdydd	Empire Fighting Chance
ACT Training	Prosperity Boxing	Academy21
Real Skillz	Grow @ Fferm Ymddiriedolaeth Amelia	YMCA – Tîm Allgymorth Iechyd Rhywiol
Aspire 2Be	No Isolation	



Ar y cyfan, profodd Digwyddiad Darparwr AHY i fod yn addysgiadol ac yn adfywiol, gan atgyfnerthu'r weledigaeth a rennir ar draws gwasanaethau: i sicrhau bod gan bob dysgwr, waeth beth fo'u hamgylchiadau, fynediad at gymorth sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i ffynnu. Mae'r ymgysylltiad a'r cydweithrediad a ddangosir trwy gydol y dydd yn adlewyrchu sylfaen gadarn ar gyfer partneriaethau parhaus a datblygiadau yn y dyfodol ar draws y Fro.

Os yw ysgolion yn dymuno cysylltu a thrafod dysgwyr a'r ddarpariaeth, cysylltwch â ni [**PupilEngagement@valeofglamorgan.gov.uk**](mailto:PupilEngagement@valeofglamorgan.gov.uk)

Yn cyflwyno'r Rheolwr Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar Gymunedau newydd.

Mae'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn falch o gyflwyno **Nathan Cogbill** fel y Rheolwr Ysgolion Bro newydd. Gyda chefnidir yn gweithio ar draws lleoliadau addysg, cymunedol a chymorth, mae Nathan yn edrych ymlaen at adeiladu ar y profiad hwn yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Mae rôl Nathan yn canolbwyntio ar gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion, teuluoedd, a'r gymuned ehangach. Bydd Nathan yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (SYTh) a staff sy'n arwain dulliau bro o fewn ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cymorth i wella ymgysylltu a lleihau rhwystrau, hwyluso rhwydweithio a rhannu cyfleoedd arfer da, a threfnu hyfforddiant wedi'i dargedu i wella ein heffaith ar y cyd.

Dros y flwyddyn academaidd nesaf, bydd cyllid ar gael i gynnig cyfleoedd cyfoethogi o fewn ysgolion. Bydd y cyllid hwn yn canolbwyntio'n arbennig ar weithgareddau sy'n hyrwyddo darllen a llythrennedd, gan alinio â blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella canlyniadau i ddysgwyr.

Yn ogystal, bydd digwyddiad rhwydweithio yn cael ei drefnu yn nhymor yr Hydref ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws y Fro, y bydd croeso i Lywodraethwyr ei fynychu. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ysgolion gysylltu ag ystod eang o sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn.

Mae Nathan yn awyddus i weithio ar y cyd ag ysgolion a Llywodraethwyr i ddatblygu ymhellach ddulliau bro sy'n cefnogi disgyblion a theuluoedd. Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y gwaith hwn, cysylltwch â Nathan yn: ncogbill@valeofglamorgan.gov.uk.

Grŵp Cyfeirio Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru

Wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, mae'r grŵp cyfeirio yn cynnig mewnbwn i lywio opsiynau a chamau gweithredu posibl ar gyfer yr adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru.

Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru ystod eang ac amrywiol o gyfrifoldebau a nodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Maent yn chwarae rhan ganolog yn y system ysgol, gan gefnogi dysgwyr a staff ysgolion. Mae'r system ysgolion yng Nghymru wedi gweld diwygiadau enfawr dros y degawd diwethaf, yn aml gyda dyletswyddau ychwanegol neu ddiwygiedig wedi'u gosod ar gyrff llywodraethu, ond nid yw rôl cyrff llywodraethu ysgolion wedi newid mewn unrhyw ffordd sylfaenol.

Bydd y grŵp cyfeirio yn gynrychioliadol o'r sector ysgolion yng Nghymru ac ni fydd yn gwneud penderfyniadau neu argymhellion polisi, ond bydd yn cynnig mewnbwn i lywio opsiynau a chamau gweithredu posibl ar gyfer y gwaith.

Grŵp Cyfeirio Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru | LLYW.CYMRU



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Hyfforddiant mewn swydd (HMS)

Bydd chwe diwrnod HMS yn cael eu darparu bob blwyddyn academiaidd rhwng 2026 a 2027, gan adeiladu ar y trefniadau sydd wedi bod ar waith dros dro ers 2019.

Hyd at 2025 i 2026, roedd y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)) yn nodi bod 5 diwrnod INSET. Darparodd Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ddiwrnodau HMS ychwanegol ad hoc. Darparwyd diwrnod ychwanegol yn y modd hwn rhwng 2019 a 2020 tan 2025 i 2026.

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn diwygio Rheoliadau 2003 Mae Rheoliadau diwygiedig 2003 bellach yn darparu cyfanswm o 6 diwrnod HMS yn barhaus.

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad, gellir eu gweld [yma](#)

Arolwg Hyfforddiant Llywodraethwyr

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'n rhaglen hyfforddi llywodraethwyr i sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein llywodraethwyr ac yn eu cefnogi'n effeithiol yn eu rôl. Mae eich adborth yn bwysig iawn wrth ein helpu i lunio cyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol a sicrhau eu bod yn berthnasol, yn hygyrch ac o'r ansawdd uchaf.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd ychydig funudau i gwblhau'r arolwg byr isod. Bydd eich barn a'ch awgrymiadau yn chwarae rhan bwysig wrth lywio datblygiad ein rhaglen hyfforddi. Diolch ymlaen llaw am eich amser a'ch cefnogaeth.

Arolwg Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg

Cylchlythyr Mynegai - Rhifyn yr Haf

Mae'r rhifyn diweddaraf o Gylchlythyr Mynegai ar gael i'w weld nawr. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth, gwasanaethau, gweithgareddau a chymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol ledled Bro Morgannwg.

Dysgwch am:

- Y newyddion diweddaraf gan Mynegai
- Gweithgareddau a chymorth i deuluoedd lleol
- Budd-daliadau, gostyngiadau, grantiau a chynlluniau
- Adnoddau Pecyn Cymorth i Deuluoedd
- Llwybrau a chyfleoedd i bobl ifanc 16+

Cliciwch ar y ddolen isod i weld y Cylchlythyr Mynegai – Haf 2026, Rhifyn 50

[Cylchlythyr Mynegai Haf 2026](#)



Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA I;

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI T
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

VGSA Management Committee 2024-26

The Management Committee is comprised of elected Governors plus the two parent Governor Representative (one each from the Primary and Secondary Sectors)

No	Name	School
1	Mr P Cate (Vice Chair)	Ysgol Gynradd Jenner Park
2	Mr J Duxbury	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
3	Ms J Evans	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone
4	Mr G Griffiths	Ysgol Gwaun y Nant & Ysgol Sant Curig
5	Mrs J Griffiths	Ysgol Gynradd Fairfield & Ysgol Gynradd Babyddol Sant Joseff
6	Cllr W Hennessey	Ysgol Gynradd y Rhws & Ysgol Gynradd Sain Helen
7	Mrs S Jenkins	Ysgol Gyfun St Cyres
8	Mr G Kemp	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas &
9	Dr C Lee	Ysgol Gyfun St Cyres
10	Cllr J Lynch-Wilson	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr & Ysgol Gynradd South Point
11	Dr M Price (Chair)	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
12	Mrs G van der Burgt	Ysgol Gyfun Whitmore
13	Mrs T Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-faen
14	Mr O Williams	Ysgol Sant Baruc
15	Cllr M Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria

Ymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd– L Barrowclough- Ysgol Gynradd Llandochoaul
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd– K Riddick – Ysgol Gyfun Whitmore

Uned Cymorth i Lywodraethwyr Bro Morgannwg

E-bost: governors@valeofglamorgan.gov.uk

Manylion Cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr a Chwynion Ysgolion

Ffôn: 01446 709106

E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Francesca Maus

Uwch Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr

Ffôn: 01446 709125

E-bost: fmaus@valeofglamorgan.gov.uk

Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post: VSGA a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr Dysgu a Sgiliau Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

